Adran Gwaith a Phensiynau

# Am **Lwfans Byw i'r Anabl i blant**

**Hawdd i'w Ddarllen**



Ein cyfiernod: **DLAc1WER** 04/23

# Cynnwys


1

DLA

Cyflwyniad

Tudalen 3

2



Am Lwfans Byw i'r Anabl i blant

Tudalen 5

3



Gwneud Cais am Lwfans Byw i'r Anabl i blant

Tudalen 11

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith
a Phensiynau

Mae Lwfans Byw i'r Anabl i blant yn fudd-dal gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.




Mae'n helpu i dalu rhai o'r costau ychwanegol wrth edrych ar ôl **plentyn o dan 16 oed** gyda:


- Anabledd
- Salwch
- Cyflwr iechyd.

DLA

Weithiau gelwir Lwfans Byw i'r Anabl i blant yn DLA.



Mae’r wybodaeth hon yn dweud wrthych am Lwfans Byw i’r Anabl i blant, pwy all ei gael, a sut i wneud cais amdano.




**Os yw plentyn yn 16 oed neu’n hŷn**, dylent wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol (PIP).



Os yw’ch plentyn yn byw yn yr Alban, gallwch wneud cais am Daliad Plentyn Anabl.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.mygov.scot/child-disability-payment

Am fwy o wybodaeth Hawdd i’w Ddarllen ar Daliad Annibyniaeth Personol (PIP), ewch i www.gov.uk a chwiliwch am **Easy Read PIP**.

I wneud cais cais am asesiad iechyd a gofal cymdeithasol, ewch i www.gov.uk/apply-needs-assessment-social-services

# 2 Am Lwfans Byw i'r Anabl i blant



Mae dwy ran i'r Lwfans Byw i'r Anabl i blant:

- Gofal
- Symudedd.



Mae **gofal** ar gyfer plentyn sydd angen gofal a chefnogaeth ychwanegol.



Gallai hyn fod:

- Am rywfaint o'r dydd neu'r nos
- Trwy gydol y dydd neu'r nos
- Os ydynt yn nesau at ddiwedd eu hoes.



Mae **symudedd** ar gyfer plentyn sydd angen gofal a chefnogaeth i symud o gwmpas. Gallai hyn fod:

- Eu cefnogi wrth gerdded
- Eu cefnogi os na allant gerdded, neu os gallant gerdded pellter byr yn unig.




Efallai y bydd plentyn yn gallu cael arian ar gyfer 1 neu'r ddwy ran.



Gall plentyn gael y rhan **gofal** o'i enedigaeth.

Y taliad cyntaf fydd 3 mis ar ôl yr enedigaeth.




Mae gan y rhan **gofal** 3 chyfradd:

- Isaf
- Canol
- Uchaf.




Mae cyfradd y gofal y gall plentyn ei gael yn dibynnu ar faint o ofal a chymorth ychwanegol sydd eu hangen arnynt.

Nid yw'n seiliedig ar beth yw eu hanabledd neu eu cyflwr iechyd.



Efallai y bydd plentyn yn cael y gyfradd isaf o ofal os oes angen gofal a chefnogaeth ychwanegol arnynt am rywfaint o'r dydd.




Gall plentyn gael y gyfradd ganol o ofal os oes angen:

- Gofal neu gefnogaeth ychwanegol yn ystod y dydd neu'r nos
- Rhywun i helpu tra'u bod ar ddialysis i drin methiant yr arennau.



Efallai y bydd plentyn yn cael y gyfradd uchaf o ofal os oes angen:

- Gofal neu gefnogaeth ychwanegol yn ystod y dydd a'r nos
- Maent yn nesau at ddiwedd eu hoes.




Mae gan y rhan **symudedd** 2 gyfradd. Gall plentyn gael:

- Isaf – o 5 oed
- Uchaf – o 3 oed.



Mae'r gyfradd symudedd y gall plentyn ei chael yn dibynnu ar ba gymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt i fynd o gwmpas.



Efallai y gall plentyn cael cyfradd isaf yr elfen symudeddd os:

- Gallant gerdded ond mae angen cefnogaeth arnynt
- Mae angen rhywun arnyn nhw i wylio drostyn nhw yn yr awyr agored.



Efallai y gall plentyn gael y gyfradd uchaf or elfen symudedd os:

- Na allant gerdded
- Ydynt yn gallu cerdded pellter byr yn unig heb anghysur difrifol
- Maen nhw'n mynd yn sâl iawn os ydyn nhw'n ceisio cerdded.

# 3
**mis**

I gael Lwfans Byw i'r Anabl i blant mae'n rhaid bod y plentyn wedi cael anawsterau am 3 mis.

Dylai'r anawsterau hyn bara am 6 mis arall oni bai eu bod yn nesau at ddiwedd eu hoes.




Os mae'r plentyn yn nesau at ddiwedd eu hoes, ffoniwch y llinell gymorth Lwfans Byw i'r Anabl i blant ar **0800 121 4600**.

Mae rheolau arbennig mewn lle fel y gallwn dyfarnu Lwfans Byw i'r Anabl i blant yn gyflymach.

?

**Eglurhad**

**Mae nesau at ddiwedd eu hoes** yn golygu y gallai fod gan y plentyn lai na 12 mis i fyw.

Am fwy o wybodaeth am y 'rheolau arbennig', ewch i www.gov.uk/budd-daliadau-os-ydych-yn-derfynol-wael

# 3 Gwneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl i Blant



Mae'n rhaid i'r person sy'n gofalu am y plentyn wneud cais.




Os mai chi yw rhiant y plentyn, mae'n rhaid i chi fod **dros 16 oed** i wneud cais.




Os mai chi yw gofalwr y plentyn, mae'n rhaid i chi fod **dros 18 oed** i wneud cais.




Gallai'r person sy'n gwneud y cais am Lwfans Byw i'r Anabl i blant fod:

- Yn gweithio
- Gyda chynilion
- Yn cael arian arall yn dod i mewn.



Gallai taliad am eich Lwfans Byw i'r Anabl i blant ddibynnu ar:

- Ble mae'r plentyn yn byw yn y DU
- Os ydyn nhw erioed wedi byw dramor.

Am fwy o wybodaeth Hawdd i'w Ddarllen am Lwfans Byw i'r Anabl i blant, ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

Chwiliwch am **Easy Read DLA child**.